# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 22 Mai 2017

Amser: 14.03 - 16.35

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4109

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Mike Hedges AC<br>Neil McEvoy AC |
| Tystion: | Kevin Ingram, Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Dr Emyr Roberts, Cyfoeth Naturiol Cymru<br>David Sulman, UK Forest Products Association |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Huw Vaughan Thomas - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Matthew Mortlock<br>Dave Rees |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

**Trawsgrifiad**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 999KB) Gweld fel HTML (999KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mohammad Asghar AC a Lee Waters AC. Ni chafwyd dirprwyon. Roedd Rhianon Passmore AC yn absennol.

## 2 Papur(au) i'w nodi:

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

**2.1 Diwygio llywodraeth leol: Cadernid ac adnewyddiad - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol (10 Mai 2017)**

## 3 Cyfoeth Naturiol Cymru: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16: Sesiwn Dystiolaeth 2

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan David Sulman, Cyfarwyddwr Gweithredol, Cymdeithas Cynhyrchion Coedwig y DU fel rhan o'i ymchwiliad i'r gwaith craffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16 Cyfoeth Naturiol Cymru.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Cyfoeth Naturiol Cymru: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16 - Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a dderbyniwyd gan Mr Sulman.

## 6 Cyfoeth Naturiol Cymru: Sesiwn Dystiolaeth 3

3.1 Craffodd y Pwyllgor ar Dr Emyr Roberts, y Prif Weithredwr, a Kevin Ingram, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Cyllid a Chorfforaethol Cyfoeth Naturiol Cymru o ran Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16 Cyfoeth Naturiol Cymru.
6.2 Craffodd yr Aelodau ar Dr Emyr Roberts a Kevin Ingram ar adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Ddatblygu Cyfoeth Naturiol Cymru a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2016.
6.3 Cytunodd Dr Roberts i anfon diweddariad ar ddangosyddion perfformiad CNC a chynnwys cymhariaeth blwyddyn wrth flwyddyn er mwyn galluogi'r Pwyllgor i asesu tueddiadau mewn perfformiad.

## 7 Cyfoeth Naturiol Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

7.1 Bu'r Aelodau yn trafod y dystiolaeth a ddaeth i law wrth graffu ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16 Cyfoeth Naturiol Cymru. Nid oedd rhai Aelodau'n fodlon ar y dull a gymerwyd gan CNC at yr ymarfer tendro yn 2012 a nodwyd bod gwrthdaro o ran tystiolaeth gan y ddwy set o dystion ynghylch y mater hwn. Gofynnwyd i'r Clercod archwilio ymhellach gyda Mr Sulman beth oedd cyflwr y farchnad bren a beth oedd e'n teimlo y gallai CNC fod wedi'i wneud i ehangu cwmpas y tendr.
7.2 Nododd yr Aelodau y bydd yr adroddiad drafft ar gael iddynt i'w drafod yng Nghyfarfod y Pwyllgor ar 5 Mehefin.
7.3 Trafododd yr Aelodau'r dystiolaeth a dderbyniwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn dilyn craffu ar adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cytunwyd y bydd y Cadeirydd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig â materion y mae'r Pwyllgor yn dymuno iddynt gael eu cynnwys yng ngwaith craffu blynyddol y Pwyllgor ar CNC yn nhymor yr hydref.